


# Cyflogwyr i Ofalwyr

## Sut allwn ni eich cefnogi chi

Mae Cyflogwyr i Ofalwyr (EfC) yn wasanaeth aelodaeth tanysgrifio, sy'n cynnig arweiniad i gyflogwyr i weithredu arfer gwaith gofalwyr hyderus. Y nod yw rhoi pecyn cymorth i chi, fel y gallwch gefnogi eich gweithwyr, sy'n ofalwyr, a chadw eu sgiliau a'u profiad o fewn eich busnes.

gofalwyr
CYMRU

## Pwy ydym ni a beth yw ein gwaith?

Cenhadaeth EfC yw dangos y manteision o gadw gofalwyr yn eich gweithlu drwy fabwysiadu arferion er mwyn cefnogi gofalwyr yn well. Rydym yn darparu'r adnoddau sydd eu hangen ar gyflogwyr i alluogi gweithwyr i reoli eu hymrwymiadau gwaith.

## A oeddech chi'n gwybod?

Mae **1 o bob 7** o'r holl weithwyr yng Nghymru yn ceisio ymdopi a gweithio a gofalu am eu hanwyliaid, sydd yn cyfateb i **223,000** o weithwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu. Mae'r bobl yn fwyaf tebygol o fod yn gofalu rhwng 45 a 64 oed – sef y cyfnod pan fydd llawer ohonynt wedi ennill sgiliau a phrofiadau gwerthfawr yn y gweithle.

Heb gymorth, bydd **22%** o aelodau o staff sydd â chyfrifoldebau gofal yn **lleihau** eu horiau, neu'n **rhoi'r gorau** i weithio.

**Gallwn eich helpu i'w cadw.**

## Dod yn aelod o EfC Cymru

Ymunwch â ni heddiw i gael cyngor a chymorth ymarferol gan dîm EfC, sydd â dros 15 mlynedd o brofiad o weithio ym maes gofalwyr a chyflogaeth. Gallwn eich helpu gyda'r canlynol:

- Codi ymwybyddiaeth o ofalu a materion gofalu yn y gweithle
- Adolygu polisïau ac arferion presennol, a 'sicrhau eu bod yn diogelu gofalwyr'
- Adnabod ac ymgysylltu â gofalwyr yn y gweithle
- Datblygu, cefnogi a rheoli rhwydweithiau gofalwyr staff
- Hyfforddi a chefnogi rheolwyr llinell i weithredu polisïau sy'n ystyriol o ofalwyr
- Cyfeirio gweithwyr at ffynonellau cymorth yn y gweithle ac at gymorth allanol

## Mae aelodau'n derbyn y buddion canlynol:

- **Mynediad i blatfform ar-lein ein haelodau, EfC Digital**, sy'n cynnwys canllawiau, e-Ddysgu, enghreifftiau o arferion gorau, templedi, polisïau sampl ac astudiaethau achos; sydd wedi'u cynllunio i helpu i adeiladu eich strategaeth ar gyfer cefnogi gofalwyr sy'n gweithio. Mae'r platfform wedi'i gyd-frandio, i adlewyrchu eich hunaniaeth gorfforaethol. Mae'r platfform wedi cael ei gyfieithu i'r Gymraeg hefyd.

- **Sesiynau 'cinio a dysgu' neu hyfforddiant mewnol**, wedi'u teilwra i fodloni gofynion unigol. Gellir trefnu sesiynau pellach.

- **Cymorth uniongyrchol gan Hwb EfC Cymru ar gyfer sefydliadau sydd** wedi'u lleoli yng Nghymru, neu ar gyfer sefydliadau sydd â phresenoldeb/swyddfa ranbarthol yng Nghymru.

- **Gwahoddiadau i Ddigwyddiadau** Rhwydweithio Aelodau, gyda phob un yn canolbwyntio ar faes penodol o ddiddordeb, sydd yn cael eu rhedeg tua phedair gwaith y flwyddyn.

- **Ffi asesu** ostyngol ar gyfer Gofalwr Hyderus, ein cynllun meincnodi cyflogwyr, y gallwch ddarllen mwy amdano isod.

## Y Manteision Busnes o ddod yn Aelod EfC

Yn hytrach na pheryglu amcanion busnes, mae ymchwil yn dangos bod defnyddio dull gweithio hyblyg yn cyflawni canlyniadau busnes trawiadol.

Mae’r dull hyblyg hwn yn:



- Denu a chadw staff
- Lleihau straen
- Gostwng costau recriwtio a hyfforddi
- Cynyddu gwydnwch a chynhyrchiant
- Lleihau absenoldeb salwch
- Gwella cyflenwi gwasanaethau
- Cynhyrchu arbedion costau
- Gwella rheoli pobl
- Cynyddu morâl staff

Mae sefydliadau sydd wedi cyflwyno trefniadau gweithio hyblyg a gwyliau arbennig i ofalwyr, wedi barnu eu bod yn llwyddiant. Eu neges yw – mae'n gwneud synnwyr busnes i ofalu am ofalwyr.

**Ymunwch â rhwydwaith o dros 220 o gyflogwyr blaengar sy'n cydnabod y manteision busnes wrth gefnogi gofalwyr sy'n gweithio.**

## Gofalwyr Hyderus – Cynllun meincnodi Cyflogwyr i Ofalwyr

Mae adeiladu gweithle cefnogol i'r holl staff – gan gynnwys y niferoedd cynyddol sydd, neu a fydd, yn dod yn ofalwyr - yn arfer cyflogaeth da ac yn synnwyr busnes da.

Carer Confident Active

Carer Confident Accomplished


Carer Confident Ambassador

Mae'r cynllun meincnodi **Gofalwyr Hyderus** yn cynorthwyo cyflogwyr i adeiladu gweithle cefnogol a chynhwysol ar gyfer staff sy'n ofalwyr, neu a fydd yn dod yn ofalwyr, ac i wneud y gorau o'r doniau y gall gofalwyr eu cynnig i'r gweithle.

Mae **Gofalwyr Hyderus** yn ceisio cydnabod cyflogwyr sy'n cyflawni hyn, ac ysbrydoli eraill i ddilyn eu hesiampl hefyd.

Bydd y dystysgrif cyflawniad yn cael ei chyflwyno i gyflogwyr sydd wedi dangos eu bod nhw wedi adeiladu gweithle cynhwysol, lle mae gofalwyr yn cael eu cydnabod, eu parchu a'u cefnogi.

Mae **Gofalwyr Hyderus** yn cydnabod y pwysigrwydd o gadw aelodau gwerthfawr o staff, lleihau absenoldeb a chostau recriwtio diangen, ac o gynyddu gwydnwch, ymgysylltiad a chynhyrchiant staff.




## Jointly

Cymhwysiad symudol, ar-lein ydy Jointly, sydd wedi cael ei greu gan ofalwyr, ar gyfer gofalwyr. Mae wedi cael ei gynllunio i wneud gofalu ychydig yn haws, yn llai o straen ac yn fwy trefnus.

Mae'n cyfuno negeseuo grŵp â nodweddion defnyddiol eraill, sy'n cynnwys rhestrau o bethau i'w gwneud a rhestrau meddyginiaeth, calendr a mwy! Gallwch ei ddefnyddio gydag eraill neu ar eich pen eich hun.

Gall gofalwyr ei lawrlwytho'n unigol neu gall sefydliad dalu am danysgrifiad, a darparu hyn fel Buddion Cyflogeion.

Mae nodweddion Jointly yn cynnwys y canlynol:

- Proffil – storio gwybodaeth ddefnyddiol am y person rydych chi'n gofalu amdano.
- Negeseuo - Cyfathrebu gyda phawb yn eich cylch jointly.
- Meddyginiaeth – Cadw trac ar feddyginiaethau presennol/yn y gorffennol
- Calendr - Creu digwyddiadau dyddiad ac amser benodol

## Prisiau

Mae'r gost aelodaeth wedi'i deilwra i bob sefydliad, ac mae'n dibynnu ar nifer o ffactorau, fel niferoedd y staff a sectorau cwmnïau. Mae gostyngiadau sylweddol ar gael hefyd pan fyddwch yn tanysgrifio i gyfuniad o gynhyrchion.

## Rhagor o wybodaeth

Ewch i www.employersforcarers.org. E-bost employers@carerswales.org neu ffoniwch 029 2081 1370.

Gofalwyr Cymru

T 029 2081 1370 | E info@carerswales.org | carerswales.org

@carerswales /carerswales

Mae'r canllaw hon wedi'i chreu er mwyn darparu gwybodaeth a chyngor defnyddiol. Er ein bod yn gweithio i sicrhau bod ein gwybodaeth yn gywir ac yn gyfredol, byddem yn argymell i chi gysylltu â Llinell Gymorth CarersUK neu ymweld â'n gwefan am y wybodaeth ddiweddaraf.

Mae Gofalwyr Cymru yn rhan o Carers UK, elusen sydd wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (246329) ac yn yr Alban (SCO39307) ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr (864097). Swyddfa gofrestredig 20 Great Dover Street, Llundain SE1 4LX.

Cod Cyhoeddiad: W9040 © Carers Wales, Ebrill 2020.
Dyddiad adolygu nesaf: Ebrill 2021